# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023

Amser: 09.00 - 09.37

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r pwyllgor.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

Gofynnodd Heledd Fychan a oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatganiad ynghylch adroddiadau ar ffigyrau amseroedd aros damweiniau ac achosion brys, yn dilyn pryderon a godwyd gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys. Nododd y Trefnydd fod swyddogion yn ystyried yr honiadau a wnaed ac y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Dydd Mawrth 24 Hydref 2023**

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Canllawiau Presenoldeb (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023 (5 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 -**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25 (30 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Jenny Rathbone (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 25 Hydref:

**Alun Davies**

**NNDM8381**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod yr Holodomor yn drosedd a bennwyd ymlaen llaw, a gyflawnwyd ac a arweiniwyd gan Stalin a'r Llywodraeth Sofietaidd yn erbyn pobl Wcráin.

2. Yn ystyried bod yr Holodomor yn weithred o hil-laddiad.

3. Yn nodi rôl hollbwysig y newyddiadurwr o Gymru, Gareth Jones, wrth ddod â chreulondeb yr Holodomor i sylw'r byd.

4. Yn parhau i sefyll gyda phobl Wcráin wrth iddynt wynebu rhyfel anghyfreithlon Putin.

A'r cynnig canlynol ar gyfer dyddiad i'w gadarnhau ym mis Tachwedd:

**Mark Isherwood**

**NNDM8385**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod mis Tachwedd yn Fis Ymwybyddiaeth Canser y Pancreas, ac mai 16 Tachwedd 2023 yw Diwrnod Byd-eang Canser y Pancreas;

b) bod y cyfraddau goroesi yng Nghymru a'r DU yn dal i fod ar ei hôl hi o gymharu â llawer o Ewrop a'r byd;

c) bod canser y pancreas yn anodd ei ganfod a bod diagnosis yn cymryd gormod o amser gyda phrosesau araf a phrofion niferus yn gadael pobl yn y tywyllwch;

d) ar ôl canfod y canser, mae pobl yn wynebu rhwystrau enfawr o ran cael y wybodaeth a'r gofal sydd eu hangen arnynt i fod yn ddigon da i gael triniaeth, gyda llawer o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gadael heb unrhyw gynllun cymorth ar waith, a heb help i reoli symptomau; ac

e) ar ôl cael diagnosis, dim ond 3 o bob 10 o bobl sy'n cael unrhyw driniaeth, y gyfran isaf o bob math o ganser, a bod hanner y bobl yn marw o fewn mis i'r diagnosis.

2. Yn deall bod angen i bobl sydd â chanser y pancreas gael llwybr cyflymach a thecach a ariennir drwy gydol eu diagnosis, triniaeth a gofal, a hynny ar frys.

3. Yn cefnogi ymdrechion Pancreatic Cancer UK i sicrhau bod llwybr o'r fath yn cael ei weithredu.

4. Yn canmol yr holl elusennau a sefydliadau ymgyrchu a'u cefnogwyr ymroddedig am eu hymdrechion diflino i godi ymwybyddiaeth o ganser y pancreas, ac yn dymuno pob llwyddiant i bawb sy'n ymwneud â Mis Ymwybyddiaeth Canser y Pancreas yn eu hymdrechion.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gwneud cais i Aelodau'r Pwyllgor gael ymgymryd â busnes y pwyllgor yng Nghaeredin

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i'w Aelodau gael eu hesgusodi o'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 22 Tachwedd 2023 er mwyn ymgymryd â busnes y Pwyllgor yng Nghaeredin.

Cofrestrodd Jane Dodds ei phryder gyda phwyllgorau yn cymryd hediadau mewnol yn sgil yr argyfwng hinsawdd.

## 5 Gwaith Gweithdrefnol

### 5.1 Newidiadau i'r Canllawiau ar Gwestiynau Amserol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau arfaethedig i'r canllawiau ar Gwestiynau Amserol, yn ymwneud â'r broses gyhoeddi, darparu gwybodaeth ategol gan Aelodau a'r nifer uchaf o Gwestiynau Amserol a fydd fel arfer yn cael eu derbyn ym mhob sesiwn, a chytunodd arnynt.

### 5.2 Papur i'w Nodi: Terfynau amser ar atebion gweinidogol

Nododd y Pwyllgor Busnes bapur ar gyflwyno terfynau amser ar atebion gweinidogol yn Senedd yr Alban a chytunodd i ddychwelyd at drafodaeth bellach ar y pwnc hwn unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am effaith y newid yn yr Alban.

## 6 Unrhyw Fater Arall

Tynnodd y Trefnydd sylw at yr amser gorffen hwyr a ragwelir ar gyfer trafodion dydd Mawrth 21 Tachwedd. Trafododd y Pwyllgor Busnes nifer o opsiynau posibl ar gyfer lliniaru hyn a chytunodd y Trefnydd i ystyried ymhellach cyn cynnig busnes y llywodraeth ar gyfer y dyddiad hwnnw yn y cyfarfod canlynol.